# Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016

**2016 dccc 1**

## RHAN 3

DARPARIAETHAU SY'N GYMWYS I BOB CONTRACT MEDDIANNAETH

## PENNOD 8

DELIO

*Olynu*

### 79 Effaith olyniaeth

(1) Mae person sy'n olynu i gontract meddiannaeth o dan adran 73(2) neu adrannau 73(3) a 78(2) yn dod yn ddeiliad y contract ar y dyddiad perthnasol.

(2) Mae person (neu bersonau) sy'n olynu i gontract meddiannaeth o dan adrannau 73(3) a 78(3) neu (4) yn dod yn ddeiliad y contract (neu yn dod yn ddeiliaid y contract) ar ba un bynnag o'r canlynol sydd hwyraf—

- (a) y dyddiad perthnasol, a
- (b) y dyddiad y deuir i gytundeb neu'r diwrnod y mae'r landlord yn dethol rhywun.

(3) Mae person (neu bersonau) sy'n olynu i gontract meddiannaeth yn dilyn apêl o dan adran 78(5) neu (6) yn erbyn detholiad y landlord yn dod yn ddeiliad y contract (neu yn dod yn ddeiliaid y contract) ar ba un bynnag o'r canlynol sydd hwyraf—

- (a) y dyddiad perthnasol, a
- (b) y diwrnod y dyfernir yn derfynol ar yr apêl.

(4) Y dyddiad perthnasol yw'r diwrnod y byddai'r contract wedi dod i ben o dan adran 155 pe na byddai unrhyw un yn gymwys i olynu i'r contract.

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, Adran 79 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 21 Mehefin 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

(5) Yn ystod y cyfnod sy'n dechrau â'r dyddiad perthnasol ac sy'n dod i ben pan fydd person (neu bersonau) yn dod yn ddeiliad y contract o dan is-adran (2) neu (3)—

(a) nid yw'r olynwyr perthnasol i'w trin fel tresmaswyr mewn perthynas â'r annedd, a

(b) at ddibenion unrhyw atebolrwydd o dan y contract, mae'r olynwyr perthnasol i'w trin fel pe baent yn gyd-ddeiliaid contract o dan y contract.

(6) "Yr olynwyr perthnasol" yw'r personau—

(a) sy'n gymwys i olynu deiliad y contract a fu farw, a

(b) sy'n byw yn yr annedd.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 79 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 257(2)**

**I2** A. 79 mewn grym ar 1.12.2022 gan O.S. 2022/906, **ergl. 2**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, Adran 79 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 21 Mehefin 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**

– specified provision(s) savings for amendments by 2018 anaw 1, s. 6, Sch. 6 by S.I. 2019/110 reg. 5

**Changes and effects yet to be applied to the whole Act associated Parts and Chapters:**
Whole provisions yet to be inserted into this Act (including any effects on those provisions):

– s. 20(3)(ma) inserted by 2019 anaw 2 Sch. 3 para. 4(2)
– s. 135(2)(ia) inserted by 2019 anaw 2 Sch. 3 para. 4(3)
– s. 186A-186C inserted by 2019 anaw 2 Sch. 3 para. 4(1)
– s. 198A inserted by 2019 anaw 2 Sch. 3 para. 5